

Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

Pwrpas y bwletin hwn yw rhoi gwybod i chi am y datblygiadau diweddaraf ym maes Llythrennedd a Rhifedd ac am adnoddau ar draws pob cyfnod allweddol

Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GwE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.



Adnoddau - beth sydd ar gael ar-lein?

Llythrennedd



Ar wefan CBAC www.cbac.co.uk mae nifer o adnoddau amrywiol i'w cael ar draws yr ystod oedran. Ydych chi wedi gweld pecyn **Llythrennedd Sir Ceredigion** sy'n cynnwys ymarferion a gemau er mwyn meithrin sgiliau sillafu a gramadeg dysgwyr CA2 ac adnodd **Cardiau Cymraeg Sir Benfro** i gadarnhau cystrawen dysgwyr yn eu pynciau?

Am addysgu llythrennedd yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau gweledol?


Ewch i <http://www.literacyshed.com/> am ysbrydoliaeth



Rhifedd



Mae'r **National Centre for Excellence in the Teaching of Mathematics** www.ncetm.org.uk yn cynhyrchu cylchgrawn ar-lein misol sy'n llawn awgrymiadau, syniadau ac adnoddau defnyddiol. Wedi cofrestru, cliciwch ar y linc isod am syniadau am rifedd trawsgwricwlaidd ar thema'r Rhufeiniad <https://www.ncetm.org.uk/resources/29672>



Beth sy'n newydd ar Dysgu Cymru?

Beth yw eich thema? Y Rhyfel Byd Cyntaf?

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu casgliad o adnoddau llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd cyfoethog ar gyfer CA2/CA3 <http://learning.wales.gov.uk/news/sitenews/first-world-war-education-project/?lang=cy>



O ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r plattform dysgu Hwb, mae chwilio am adnoddau yn haws ac yn gynt.

Beth am gael golwg ar yr adnoddau a ddatblygwyd i roi syniadau ymarferol i athrawon o ran defnyddio arfau Hwb+ i gefnogi'r FFLIRh <http://hwb.wales.gov.uk/pages/Inf-support>



GwE(@GwEGogledCymru)

I'w nodi yn eich dyddiadur - Profion Cenedlaethol 2015

Cynhelir profion statudol 2015:
29 Ebrill – 12 Mai i ysgolion Uwchradd
5 Mai – 12 Mai i ysgolion Cynradd - DS diwrnod ychwanegol!



Nodyn Atgoffa!

Daeth asesu yn erbyn y FFLIRh yn statudol o fis Medi 2014 ymlaen

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131106-assessment-for-learning-and-the-nlrf-cy.pdf>

Arfer Orau

Am wella sgiliau llythrennedd yn eich ysgol?

Cliciwch ar y linc isod i ddarganfod sut y cyflwynodd Ysgol Morfa Nefyn dechnegau syml ac effeithiol a gafodd effaith gadarnhaol ar sgiliau ysgrifennu a sgiliau cymdeithasol dysgwyr <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer/209254.5/every-word-counts/?navmap=33,53,158>,

Hyfforddiant GwE

Bydd hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei gyflwyno dros y flwyddyn sydd i ddod.
Mis Tachwedd 2014 - bydd y ffocws ar **ymresymu rhifyddol i gydlynwyr rhifedd**. Fe'ch hysbyswyd o'r rhain.

Nodyn atgoffa i bob athro/athrawes dosbarth Derby

Peidiwch ag anghofio bod eich disgyblion yn mynd â'r Calendr Gwyllo'r Tywydd adref gyda nhw dros hanner tymor. Bydd pecyn cymorth sy'n cefnogi'r adnoddau hyn yn y dosbarth ac yn y cartref ar gael ar wefan 'Pori Drwy Stori' ddiwedd mis Hydref.

